| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Y CYNGOR |
| Dyddiad | 17 Mai 2012 |
| Pwnc | Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Archwilio |
| Awdur | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adrannau 81 i 87, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Pwyllgor Archwilio i arolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol.

2. Mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor a gellir cael hyd at draean o'r aelodaeth yn aelodau lleyg. Bydd gan unrhyw aelod lleyg hawl pleidleisio a bydd yn cael cyflog aelod cyfetholedig o £198 y dydd.

3. Rhoddodd y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ystyriaeth i'r mater a'i argymhelliad oedd i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Archwilio yn cynnwys 18 aelod etholedig ac un aelod lleyg. Argymhellir i'r aelodaeth etholedig fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

4. Nid oes trefn benodol wedi ei dynodi ar gyfer cyfethol yr aelod lleyg i'r pwyllgor. Mae canllawiau drafft gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid hysbysebu yn gyhoeddus. Maent hefyd yn awgrymu y dylai'r unigolion a benodir fod yn annibynnol o'r cyngor, heb unrhyw gyswllt busnes ag o, ac yn meddu ar wybodaeth o lywodraeth leol. Awgrymir na ddylid penodi unigolion y mae eu lliwiau gwleidyddol yn hysbys. Mae'r ddogfen atodol yn cynnwys meini prawf ar gyfer penodi yr aelod lleyg.

5. Argymhellir hysbysebu yn y wasg leol/ranbarthol am ddatganiadau o ddiddordeb gan rai sy'n dymuno gwasanaethu fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio. Argymhellir hefyd y dylai'r Grŵp Busnes ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, a fydd yn penodi'r unigolyn i wasanaethu ar y pwyllgor am dymor o 5 mlynedd.

**ARGYMHELLIAD**

6. Gofynnir i'r Cyngor
   a. Fabwysiadu'r meini prawf atodol ar gyfer aelod lleyg y Pwyllgor Archwilio
   b. Gymeradwyo'r drefn benodi a argymhellir yn yr adroddiad

**Penodiad aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio**

**Meini prawf**

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio i

- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol y Cyngor
- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli risg yr awdurdod, ei reolaeth fewnol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol
- Arolygu trefniadau archwilio ac adolygu datganiadau cyllidol yr awdurdod

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr gwrdd a'r meini prawf canlynol:

- Gallu dangos dealltwriaeth o werth y swyddogaeth archwilio
- Gallu dangos gwybodaeth o sut mae llywodraeth leol yn gweithredu
- Gallu dangos annibyniaeth meddwl ac agweddau diduedd
- Gallu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau
- Gallu darparu dau dystlythyr

Ni ellir penodi unrhyw unigolyn sydd a chysyllitad busnes â'r Cyngor nac sydd a chysylltiadau â phlaid wleidyddol

Ysytrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfangwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.